# ateb

Myfyrio ynghylch 2020

Myfyrio ynghylch 2020

Bwletin Myfyrio 2

## MILL BAY HOMES

### Adeiladwr tai â chydwybod cymdeithasol sy'n bwriadu helpu mwy o bobl

Cafodd Mill Bay Homes ei ffurfio 8 mlynedd yn ôl i fod yn un o is-gwmnïau grŵp ateb. Nod Mill Bay Homes oedd adeiladu cartrefi i'w gwerthu i'r sector preifat, a defnyddio 100% o'r rhodd cymorth a gâi ei godi er mwyn darparu mwy o gartrefi rhent cymdeithasol ar ben y rhai yr oedd ateb yn eu datblygu â chymorth grant traddodiadol gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd £5.7m ei godi yn ystod y 7 mlynedd cyntaf, ac rydym yn rhagweld y bydd blwyddyn ariannol 20/21 yn sicrhau elw o £2.6m ychwanegol (a fydd yn gwneud cyfanswm o £8.3m). Yna, mae Bwrdd ateb yn defnyddio'r arian i ddatblygu cartrefi rhent cymdeithasol newydd a phrosiectau cymunedol eraill sy'n cynorthwyo'r cwsmeriaid yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae Mike Westerman, Cadeirydd Mill Bay Homes, wedi bod wrth ei fodd gyda'r fenter,

**100%** o rodd cymorth wedi mynd i **dai cymdeithasol** a phrosiectau cymunedol ateb

Hyd yma mae **rhodd cymorth** wedi'i hawlio ar dros **£8m** a godwyd

Rhodd cymorth gwerth **£2.6m** wedi'i godi yn ystod blwyddyn ariannol **20/21**

"Yn ogystal ag adeiladu cartrefi gwych er mwyn ateb galw gwirioneddol am gartrefi newydd o safon yn y gorllewin, mae Mill Bay Homes hefyd yn sicrhau bod ei elw i gyd yn cael ei roi'n ôl ar ffurf rhodd cymorth i'w riant-gwmni, ateb, er mwyn cynorthwyo'r gymuned ehangach. Wrth brynu un o gartrefi Mill Bay Homes, rydych yn rhoi rhywbeth yn ôl yn uniongyrchol i'ch cymuned leol.

Gan mai ateb yw unig gyfranddaliwr Mill Bay Homes a bod gorbenion y cwmni'n eithaf isel, gallwn sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o rodd cymorth yn cael ei roi'n ôl bob blwyddyn. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un lwyddiannus iawn, a bydd yn gwella gallu ateb ymhellach i adeiladu mwy o gartrefi rhent cymdeithasol yn ystod y 3 blynedd nesaf."



Yn ystod y 3 blynedd nesaf, bydd Mill Bay Homes yn parhau â'i waith fel adeiladwr tai â chydwybod cymdeithasol yn y gorllewin. Diolch i bob un o gwsmeriaid a phartneriaid Mill Bay Homes sydd wedi sicrhau bod y llwyddiant hwn yn bosibl.

Nick Hampshire
**Prif Weithredwr**
**Grŵp ateb Cyfyngedig**

Mae Grŵp ateb yn cynnwys

ateb — better living solutions

Landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â 3,000 o gartrefi ac sy'n gweithredu yng ngorllewin Cymru.

millbay — Welcome Home

Cwmni cyfyngedig dan berchnogaeth lwyr, sy'n rhoi derbyniadau rhoddion cymorth yn ôl i'w riant at ddibenion cymdeithasol.

West Wales **Care & Repair**
**Gofal a Thrwsio** Gorllewin Cymru

Asiantaeth gofal a thrwsio sy'n cynorthwyo pobl hŷn a mwy agored i niwed sydd naill ai'n berchen ar eu cartref eu hunain neu'n rhentu eu cartref, drwy roi cyngor iddynt am fudd-daliadau a gwneud addasiadau i'w cartref er mwyn lleihau'r amser na fyddant yno.

Grŵp ateb – yn creu atebion gwell o ran byw i bobl a chymunedau'r gorllewin